# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

**Aelodau'r Cygnor**

23 Mehefin 2023

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar ddydd Mercher 28 Mehefin 2023** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug. Bydd ar gael hefyd drwy fideo-gyndaledda fel cyfarfod hybrid; gweler y ddolen isod.

Yn ddiffuant,

Clerc a Swyddog Cyllid y Dref

## AGENDA

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Ar ddechrau'r cyfarfod, mae croeso i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r Cynghorwyr am chwarter awr neu sôn am unrhyw faterion sydd o bwys iddynt. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu crybwyll, yna bydd y Cyfarfod y Cyngor yn dechrau am 6pm.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

### 2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

### 3. CYHOEDDIADAU'R MAER

## 4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023 (ynghlwm).

4.2 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mynwent a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023 (ynghlwm).

4.3 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023 (ynghlwm).

4.4 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Panel Cymorth Ariannol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 (ynghlwm).

4.5 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 14th Mehefin 2023 (ynghlwm).

## 5. ADRODDIADAU SWYDDOGION

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Swyddog Prosiect Adfywio Busnes (ynghlwm).

Angen penderfyniad - a yw'r aelod o blaid y cynnig yn ôl yr hwn y bydd y Swyddog Prosiect Adfywio Busnes (SPAB) yn cydweithio â'r FSB a Chyngor Sir y Fflint er mwyn trefnu digwyddiad i gefnogi busnesau lleol?
Angen penderfyniad - a yw'r aelodau yn cytuno ar ychwanegu tudalen newydd at wefan Yr Wyddgrug yn Llwyr er mwyn hybu rhagor o Deithiau i Grwpiau i'r Wyddgrug? Costau cyfieithu yw'r gost sy'n gysylltiedig â hyn, felly mae'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.
Angen penderfyniad - a yw'r aelodau'n cytuno ar leoli'r Neidr Cofid yng ngerddi'r Ysbyty neu a ddylid ei lleoli rhywle arall?
Angen penderfyniad - Aelodaeth Costco - Mae'r Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau i gofrestru er mwyn cael cerdyn Costco. Mae'r siop yn gwerthu offer sy'n addas ar gyfer digwyddiadau am bris is yn ogystal â chynnig dewisiadau arlwyo ar gyfer digwyddiadau. Y pris am aelodaeth flynyddol yw £26.40.

## 6. DIWEDDARU'R PLACIAU ENW YN Y SIAMBR

Cymeradwyo dyfynbris gan David Kynaston am £130 ar gyfer dau enw, wedi'u llythrennu'n draddodiadol a'u caboli â haen aur 23 carat; y Mae'r a'r Clerc.

## 7. MATERION YN YMWNEUD Â'R PEIRIANNAU TOCYNNAU PARCIO YM MAES PARCIO STRYD NEWYDD

Gweler yr ebost ynghlwm gan Jane Evans, y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

## 8. ARIAN CYFATEBOL MANNAU CHWARAE

Ystyried cyllid cyfatebol ar gyfer Man Chwarae Stryd y Capel.

## 9. Y GRŴP ADEILADAU

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Adeiladau.

**10. CADWYN SWYDD AR GYFER Y DIRPRWY FAER**

10.1 - Cytuno i brynu cadwyn a chrogdlws newydd ar gyfer y Dirprwy Faer. Gweler rhai o'r posibiliadau. Mae yna ddewis arall hefyd, sef cael gwybod beth yw pris eitem bwrpasol, a fydd yn cynnwys y crogdlws presennol.

10.2 – Ystyried cael cadwyn swydd ar gyfer y Cydwedd/Faeres fel y crybwyllwyd gan y Cynghorydd C Bithell.

**11. CYNLLUNIAU CHWARAE'R HAF**

Eglurhau bod yr aelodau yn cytuno y dylai Cynlluniau Chwarae'r Haf barhau i gael eu cynnal gan gadw at y costau isod, gan fod £4,200 yn y gyllideb eleni.

Manylion y costau yw:
Lôn Nwy yr Wyddgrug (4 wythnos) - £2,126
Parkfields yr Wyddgrug (4 wythnos) - £2,126
Cyfanswm y costau: £4,252

**12. DIOGELEDD YN Y FYNWENT**

O ganlyniad i nifer o bethau sydd wedi digwydd yn y Fynwent a ger Phorthordy'r Fynwent, mae Arolygydd y Fynwent wedi rhoi caniatâd i brynu fideo cloch drws, a dylid rhoi'r flaenoriaeth i hynny. Gellid trafod hefyd y mesurau diogeledd eraill.

**13. TAFARN Y RUTHIN CASTLE**

O ganlyniad i'r problemau sy'n parhau mewn perthynas â thafarn y Ruthin Castle, mae'r trigolion lleol yn cadw cofnod o'r hyn sy'n digwydd yno o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddwch.

Gofynnir i'r Aelodau ystyried gosod un o'r camerâu Teledu Cylch Cau symudol i gadw golwg, am gyfnod o amser, ar y lle sydd gerllaw'r dafarn, er mwyn cynorthwyo'r trigolion a'r Heddlu i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol. Y Cynghorydd S Taylor.

**14. Y CYN-FAER Y CYNGHORYDD JOYCE JONES**

Rhoi gwybod i'r aelodau bod seremoni gyflwyno'r fainc, gyda theulu Mrs Jones, yn cael ei chynnal yn Fir Grove, ac wedi hynny yng Nghanolfan Daniel Owen, ar 6 Gorffennaf.

**15. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Nodi'r addroddiad ynghlwm.

**16. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD**

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

## 17. Y TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGHANOLFAN DANIEL OWEN

Derbyn adroddiad gan Ymddiriedolwyr Daniel Owen, yn sgil y cyfarfod gyda Chynghorwyr y Dref ar 1 Mehefin.

## 18. ADRODDIAD ARCHWILIO ALLANOL 2021-2022 (AMODOL)

Nodi'r adroddiad ynghlwm a'r sylwadau gan Archwilio Cymru a derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Clerc.

## 19. CYMORTH ARIANNOL

The Pwyllgor Cymorth Ariannol met on the 14th Mehefin and recommends giving;

- **(a) Suitcase Theatre – £400**
- **(b) Cymdeithas Gorawl yr Wyddgrug a'r Cylch – £300 bydd y penderfyniad a wneir yn dibynnu ar yr atebion i ddau gwestiwn.**
- **(c) Gŵyl Daniel Owen – £200.**
- **(d) Capel Bethesda – £300.**

## 20. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 2, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

## 21. SWYDDI GWAG

I nodi'r sefyllfa ynghylch cynrychiolwyr ar gyrff allanol, Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor.

CDA – 2 swydd wag.

Pwyllgor Polisi ac Archwilio – 1 swydd wag.

## SYLWER:

Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond heb gymryd rhan) drwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref).

## CYFARWYDDIADAU ZOOM

**https://us02web.zoom.us/j/88907860545?pwd=aEdsdmw0NEozMFNkczE3ZWh4YlprUT09**

**Cyfeirnod y Cyfarfod: 889 0786 0545**
**Cod: 398198**